

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD		NOTICE OF MEETING	
PWYLLGOR GWAITH		THE EXECUTIVE	
DYDD IAU 17 GORFFENNAF 2025 10.00 o'r gloch		THURSDAY 17 JULY 2025 10.00 am	
YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM		COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGFNI AND VIRTUALLY VIA ZOOM	
Swyddog Pwyllgor		Ann Holmes 01248 752518	Committee Officer

AELODAU/MEMBERS

Plaid Cymru/The Party of Wales

Neville Evans, Carwyn E Jones, Dyfed Wyn Jones, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group

Dafydd Roberts, (*sedd wag/vacant seat*)

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod

R H A G L E N

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn pertynas ag unrhyw eitem o fusnes.

3 MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

4 COFNODION (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2025.

5 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH (Tudalennau 7 - 14)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth.

6 ALLDRO CYFALAF 2024/25 (Tudalennau 15 - 30)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

7 ALLDRO Y CYFRIF REFENIW TAI 2024/25 (Tudalennau 31 - 42)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

8 ADOLYGIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS AR GYFER 2024/25 (Tudalennau 43 - 62)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

9 CYFRIFON TERFYNOL DRAFFT 2024/25 A DEFNYDD O GRONFEYDD WRTH GEFN A BALANSAU (Tudalennau 63 - 82)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

10 ASESIAD PANEL PERFFORMIAD (Tudalennau 83 - 88)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn, AD a Thrawsnewid.

11 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD (Tudalennau 89 - 90)

Ystyried mabwysiadau'r canlynol –

“Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae modd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd eithriad ohoni.”

**12 CYNLLUN GOFAL YCHWANEGOL A CHARTREF GOFAL PRESWYL AETHWY
– ACHOS BUSNES LLAWN (ABLL)** (Tudalennau 91 - 150)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

This page is intentionally left blank

PWYLLGOR GWAITH

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac ar Zoom ar 24 Mehefin 2025

YN BRESENNOL:	Y Cynghorydd Gary Pritchard (Arweinydd) (Cadeirydd) Y Cynghorwyr Neville Evans, Carwyn Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Robin Williams
WRTH LAW:	Prif Weithredwr Dirprwy Brif Weithredwr Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Pennaeth Democratiaeth Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid (ar gyfer eitemau 6 a 7) Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Rhaglenni Corfforaethol (GP) (ar gyfer eitemau 6 a 7) Swyddog Pwyllgor (ATH) Swyddog Gweddarlledu (FT)
YMDDIHEURIADAU:	Y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones, Mr Fôn Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
HEFYD YN BRESENNOL:	Y Cynghorwyr Jeff Evans (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol), Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Aled M. Jones, Derek Owen, Mrs. Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini.

1. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd a nodwyd yr ymddiheuriadau y cyfeirir atynt uchod.

2. DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

1. MATERION BRYN A ARDYSTIWDYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG PENODEDIG

Dim i'w adrodd.

2. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 22 Mai 2025 i'w cadarnhau.

Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 22 Mai 2025 fel rhai cywir.

3. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd, i'w gadarnhau, adroddiad y Pennaeth Democratiaeth yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng Gorffennaf 2025 a Chwefror 2026.

Cyflwynodd y Pennaeth Democratiaeth ddiweddariad i'r Pwyllgor Gwaith ar y newidiadau yn y Flaen Rhaglen Waith, fel a ganlyn -

- Mae adroddiadau monitro'r Gyllideb Gyfalaf a Chyllideb y CRT ar gyfer Chwarter 4 2025/26 wedi'u symud o gyfarfod mis Mehefin i gyfarfod mis Gorffennaf 2025.
- Mae Adroddiad Rheoli'r Trysorlys – Adolygiad blynyddol 2024/25 ac adroddiad ar Gyfrifon drafft 2024/25 ac Arian Wrth Gefn ar ddiwedd Mawrth 2025 hefyd wedi eu hychwanegu at gyfarfod mis Gorffennaf. Mae'r adroddiad ar yr Asesiad Panel Perfformiad yn eitem newydd ar gyfer cyfarfod mis Gorffennaf nad oedd wedi ei chynnwys ar y Rhaglen Waith a gyhoeddwyd.
- Bydd adroddiad ar ganlyniadau'r ymgynghoriad ar y cynnig i adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad Ysgol newydd ar gyfer dysgwyr 11-18 oed, ynghyd â'r dogfennau Moderneiddio Cymunedau Dysgu, yn cael eu symud o fis Tachwedd i'r cyfarfod ym mis Hydref 2025.
- Mae adroddiadau monitro'r gyllideb a'r Datganiad Polisi Trwyddedu Alcohol ac Adloniant Rheoledig wedi'u hychwanegu ar gyfer y cyfarfod ym mis Chwefror 2026.

Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod Gorffennaf 2025 i Chwefror 2026 gyda'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.

4. MONITRO'R CERDYN SGORIO - CHWARTER 4 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid, yn ymgorffori'r Cerdyn Sgorio ar gyfer Chwarter 4 2024/25, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Cyflwynwyd yr adroddiad cerdyn sgorio olaf ar gyfer 2024/25 gan y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer, a nododd bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi craffu'n fanwl ar yr adroddiad yn ei gyfarfod yr wythnos gynt.

Cyfeiriodd at feysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn mynd ati i'w monitro er mwyn sicrhau gwelliant yn y dyfodol, fel y nodir yn adran 2 yn yr adroddiad. Maent yn cynnwys nifer y plant sy'n cael gwersi nofio drwy gydol y flwyddyn (Môn Actif); darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl, ail-osod unedau tai sy'n rhai y mae modd eu gosod, nifer y cytundebau angori blynyddol, cyfraddau ailgylchu gwastraff domestig a cheisiadau rhyddid gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn yr amserlen. Nodwyd bod gwelliant amlwg yn chwarter 4 mewn perthynas â'r pwynt olaf, a dim ond 14 cais rhyddid gwybodaeth, o gyfanswm o 260, oedd wedi derbyn ymateb hwyr.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Carwyn Jones hefyd at berfformiad cryf mewn sawl maes, gan gynnwys cefnogaeth i fusnesau ddatblygu'r Gymraeg trwy'r rhaglen ARFOR, cynnydd o 50,000 yn nifer yr ymweliadau â Chanolfannau Hamdden Môn Actif ar gyfer gweithgareddau corfforol, gostyngiad yn nifer y disgyblion blwyddyn 11 sy'n gadael yr ysgol heb fynd ymlaen i waith, addysg neu hyfforddiant (NEET), canran uchel o denantiaid sy'n fodlon â gwaith trwsio ymatebol, ceisiadau cynllunio sy'n cael eu penderfynu mewn pryd a chyfraddau cadarnhaol ar gyfer cyflwr ffyrdd dosbarth A, B ac C.

I gloi, dywedodd bod perfformiad wedi bod yn gyson trwy'r flwyddyn a phwysleisiodd werth y cerdyn sgorio wrth fonitro perfformiad.

Croesawyd y Cynghorydd Jeff Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Gwaith a gofynnwyd iddo gyflwyno adborth o gyfarfod y pwyllgor a gynhaliwyd ar 17 Mehefin. Er bod y pwyllgor wedi nodi bod 82.5% o'r dangosyddion

perfformiad allweddol sy'n cael eu monitro wedi cyflawni eu targedau yn ystod y pedwerydd chwarter, gofynnwyd am sicrwydd ynglŷn â'r dangosyddion sy'n tanberfformio a gallu'r Cyngor i wella'n barhaus. Roedd y materion a godwyd yn ystod y drafodaeth yn cynnwys yr amser a gymerir i ailosod unedau tai, disgyblion blwyddyn 11 sydd ddim yn mynd ymlaen i addysg, gwaith neu hyfforddiant, allyriadau carbon, gwahardd disgyblion a'r amser a gymerir i ymateb i ymholiadau diogelu oedolion. Ar ôl adolygu'r cerdyn sgorio corfforaethol ar gyfer Chwarter 4 ac yn dilyn trafodaeth lawn, penderfynodd y pwyllgor nodi'r adroddiad, gan gynnwys y meysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio er mwyn sicrhau gwelliannau, ac argymhell y cerdyn sgorio a'r mesurau lliniaru i'r Pwyllgor Gwaith. Cytunwyd hefyd y dylid cyflwyno'r dadansoddiad diwedd cyfnod drafft o'r "Cynllun Tuag at Sero Net 2022-2025" i'r Pwyllgor Sgriwtini yn yr hydref ac y dylid gofyn i'r Pennaeth Gwasanaethau Tai a'r Aelod Portffolio Cyllid a Thai holi awdurdodau lleol eraill, er enghraifft, Harlow, Rotherham a North Ayrshire, am arferion gorau ar gyfer lleihau'r amser a gymerir i ailosod unedau tai sy'n rhai y gellir eu gosod.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Jeff Evans am adrodd yn ôl o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ac am y drafodaeth adeiladol yn y cyfarfod ar 17 Mehefin. Cyfeiriodd aelodau'r Pwyllgor Gwaith at y dangosyddion oedd yn tanberfformio o fewn y meysydd yr oedden nhw'n gyfrifol amdanynt.

Eglurodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Thai ei fod yn bwriadu cysylltu â'r tri chyngor y cyfeiriwyd atynt er mwyn dysgu gwersi, ond dywedodd hefyd bod rheoliadau sy'n berthnasol i eiddo gwag yn wahanol yng Nghymru a Lloegr. Roedd yn cydnabod bod angen adolygu dangosydd tai (03) - nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod, er mwyn adlewyrchu perfformiad y gwasanaeth Tai yn well - sef o'r adeg y mae'r allweddlin cael eu dychwelyd i'r adran, yn hytrach na phan ddaw'r denantiaeth i ben. Nododd fod oedi'n digwydd yn aml mewn achosion megis marwolaeth tenant, lle gallai cryn amser fynd heibio cyn bod y Cyngor yn gallu cael mynediad i'r eiddo er mwyn gwneud unrhyw waith angenrheidiol.

Dywedodd y Cadeirydd bod dysgu ar y cyd a rhannu arfer orau ymysg cynghorau yn bwysig, a chyfeiriodd at gyfarfod CLILC a gynhaliwyd yn Llandudno yr wythnos ddiwethaf.

Esboniodd y Cynghorydd Neville Evans, Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol, fod y dangosydd Addysg (07) - nifer y plant ar gyfartaledd sy'n cael gwersi nofio drwy gydol y flwyddyn, yn cyfeirio at wersi nofio preifat yn unig ac nid yw'n cynnwys y 3,845 o blant a gymerodd ran mewn gwersi nofio gyda'u hysgolion mewn bloc o 30 wythnos. Mae gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gwersi nofio preifat yn duedd cyson mewn awdurdodau lleol eraill, ac mae'r gwasanaeth yn ceisio darganfod beth yw'r rhesymau am y dirywiad. Nid yw'r dangosydd chwaith yn cynnwys nifer y plant sy'n cymryd rhan yn y sesiynau Nofio'n Diogel/Swim Safe a drefnwyd gan Môn Actif, cynllun sydd wedi derbyn cydnabyddiaeth ar lefel genedlaethol am hyrwyddo diogelwch dŵr ac addysg nofio. Roedd dros 500 o blant wedi mynychu digwyddiadau Nofio'n Ddiogel/Swim Safe y llynedd.

Mynegodd y Cadeirydd ei werthfawrogiad o waith Môn Actif fel rhan o'r cynllun Nofio'n Ddiogel/Swim Safe. Diolchodd hefyd i holl swyddogion y rhaglen ARFOR am eu hymdrechion trwy gydol cyfnod y cynllun. Roedd Ynys Môn yn un o bedair sir wnaeth elwa ar y ffynhonnell gyllido ARFOR sydd bellach wedi dod i ben. Fel Aelod Portffolio dros dro gyda chyfrifoldeb am Briffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, cadarnhaodd ymrwymiad y Cyngor i gynyddu cyfradd ailgylchu gwastraff domestig presennol y Cyngor, sef 65%, er mwyn cyflawni targed Llywodraeth Cymru o 70%.

Penderfynwyd cytuno i'r Cerdyn Sgorio ar gyfer Chwarter 4 2024/25 a nodi'r meysydd o welliannau ynghyd â'r meysydd mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio er mwyn rheoli a sicrhau gwelliant pellach yn y dyfodol. Roedd y rhain mewn perthynas ag Addysg (Môn Actif), Tai (Darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, a Thai Gwag),

Economi (Contractau Angori Cwsmeriaid), Newid Hinsawdd (Ailgylchu Gwastraff Domestig) a Iechyd Cyffredinol y Cyngor (Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth).

5. DOGFEN GYFLAWNI FLYNYDDOL 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid yn ymgorffori'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2025/26, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Cyflwynwyd y ddogfen gan y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer ac roedd yn amlinellu'r gweithredoedd sydd ar y gweill yn 2025/26 i gyflawni'r amcanion strategol yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028. Cynlluniwyd y gweithredoedd lefel uchel hyn er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn cyflawni ei ymrwymadau o dan bob un o amcanion strategol Cynllun y Cyngor erbyn 2028. Y bwriad yw bod y gweithredoedd yn fesuradwy ac maent yn cynnwys targedau a cherrig milltir eglur lle bynnag y bo hynny'n bosib, gan olygu bod modd iddynt gael eu monitro'n effeithiol trwy gydol y flwyddyn. Bydd cynnydd yn cael ei adolygu'n chwarterol gan y Bwrdd Rhaglen Gwella a Moderneiddio a chaiff ei adlewyrchu yn yr Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad a Llesiant.

Rhannodd y Cynghorydd Jeff Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, safbwyntiau Sgriwtini yn dilyn y drafodaeth yng nghyfarfod y pwyllgor hwnnw ar 17 Mehefin. Roedd y pwyllgor yn cydnabod uchelgais y ddogfen a gofynnodd am sicrwydd y byddai'n bosib ei chyflawni, cadernid y fframwaith rheoli perfformiad sy'n cefnogi'r cynllun, a sut fyddai cynnydd yn cael ei olrhain a'i fonitro. Roedd yr aelodau wedi gofyn am ddiweddariad ar sawl maes, gan gynnwys y system ddata a gwybodaeth arfaethedig ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol, y datblygiad gofal ychwanegol arfaethedig ym Mhorthaethwy, rheoli llifogydd a chefnogaeth i gystadleuwyr di-Gymraeg yn Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn yn 2026. Ar ôl ystyried y ddogfen a derbyn sicrwydd ynglŷn â'r materion a godwyd, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol argymhell y ddogfen i'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer ei chymeradwyo.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor Sgriwtini am eu hadborth a phwysleisiodd fod y Ddogfen Gyflawni'n nodi dyheadau'r Cyngor ar gyfer 2025/26 a'i bod yn cyfrannu at amcanion ehangach Cynllun y Cyngor. Mae'n ddogfen lefel uchel ac mae'n cael ei chefnogi gan strategaethau gwasanaeth manwl a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith.

Penderfynwyd mabwysiadu'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer ei chyflawni yn 2025/26.

6. MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, ALLDRO 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 oedd yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor hyd at ddiwedd Chwarter 4, 31 Mawrth 2025, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Thai, yr adroddiad ac mae'n nodi bod y Cyngor yn rhagweld tanwariant o £3.873m ar gyfer 2024/25, yn cynnwys Cyllid Corfforaethol a'r gronfa Treth Gyngor, ac mae hynny gyfystyr â 2.15% o gyllideb net y Cyngor. Dywedodd bod yr alldro drafft gryn dipyn yn well na'r rhagolwg yn Chwarter 3 ac mae'r dadansoddiad o'r amrywiannau yn Nhabl 5 yn yr adroddiad yn dangos symudiad cadarnhaol o £3.11m. Mae'r ffactorau sydd wedi cyfrannu'n bennaf at wella'r sefyllfa yn cynnwys tanwariant o £936k yn y Gwasanaethau Oedolion, yn bennaf o ganlyniad i dderbyn incwm grantiau ychwanegol, swyddi gweigion, arbedion yn gysylltiedig â chontract cyfleustodau newydd a chynnydd mewn incwm ffioedd a thaliadau, yn enwedig yn y gwasanaethau Priffyrdd, Cynllunio ac Oedolion.

Nododd y Cyngorydd Robin Williams fod newidiadau yn y rheolau cymhwysu ar gyfer trethi busnes ar lety hunanarlwy yn golygu bod nifer o eiddo wedi trosglwyddo'n ôl i'r gofrestr Treth Gyngor, gan olygu fod mwy o eiddo'n gorfod talu'r premiwm ar ail gartrefi. Mae'r Cyngor yn rhagweld y gallai nifer o apeliadau yn erbyn y penderfyniadau hyn fod yn llwyddiannus, a gallai eiddo gwrdd â'r trothwyon newydd ar ôl cael eu hail-asesu, gan olygu eu bod yn symud yn ôl i'r gofrestr trethi busnes. Oherwydd hyn, mae'r Cyngor wedi neilltuo £900k o arian ychwanegol mewn cronfa glustnodedig er mwyn gwneud ad-daliadau yn 2025/26 os bydd angen.

Mae'r alldro drafft a'r tanwariant a nodwyd, a'i effaith ar falansau cyffredinol y Cyngor, yn cryfhau sefyllfa ariannol y Cyngor a bydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd iddo wrth gynllunio cyllideb refeniw 2026/27. Cyflwynir adroddiad pellach i'r Pwyllgor Gwaith ar ôl cwblhau'r Datganiad o Gyfrifon drafft ar gyfer 2024/25.

Nododd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 bod buddsoddiadau diweddar yn adeiladau'r Cyngor oedd â'r nod o leihau allyriadau carbon, wedi arwain at ostyngiad sylweddol mewn costau ynni yn ystod Chwarter 4.

O ran y tanwariant yng nghyllideb gyffredinol y Cyngor ar gyfer 2024/25, esboniodd bod nifer o ffactorau unwaith ac am byth wedi cyfrannu at y tanwariant, megis grantiau ychwanegol nad yw'r Cyngor yn debygol o'u derbyn eto, swyddi gweigion dros dro a chynnydd mewn incwm oherwydd cynnydd yn y galw a allai ostwng eto yn 2026/27. Pwysleisiodd nad yw'r datblygiadau yn 2024/25 wedi newid fawr ar sefyllfa ariannol sylfaenol y Cyngor, na'r heriau y mae'n eu hwynebu. Bydd yr alldro a ragwelir ar gyfer cyllideb 2024/25 yn atgyfnerthu balansau cyffredinol y Cyngor, gan gynnig mwy o ddewisiadau wrth gynllunio cyllideb 2026/27, ond nid yw'r datrys y pwysau sylfaenol, yn arbennig ym maes gofal cymdeithasol i Oedolion a Phlant. Rhagwelir gorwariant o £1.948m yn y Gwasanaethau Plant yn 2024/25, er bod y Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol wrth bennu'r gyllideb. Mae arian ychwanegol wedi'i gynnwys ar gyfer y gwasanaethau hyn yn y gyllideb ar gyfer 2025/26, a'r gobaith yw y byddant yn llwyddo i wario yn unol â'r adnoddau sydd ganddynt. Mae balansau cyffredinol y Cyngor wedi elwa hefyd yn sgil derbyn arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gwrdd â chynnydd yng nghyfraniadau'r cyflogwr tuag at bensiynau athrawon, ynghyd â chymorth gyda chostau tâl uwch a chostau uwch yn y gwasanaethau cymdeithasol a digartrefedd. Gan fod y gyllideb eisoes yn cynnwys darpariaeth ar gyfer costau pensiwn a chostau staff, mae'r symiau hyn wedi'u hychwanegu at y balansau cyffredinol.

Wrth edrych i'r dyfodol, bydd Llywodraeth Cymru'n derbyn cynnydd uwch na chwyddiant o ganlyniad i adolygiad gwariant y Llywodraeth yn San Steffan, ac os yw hyn yn dilyn y patrwm hanesyddol, a bod y cynnydd yn cael ei neilltuo'n bennaf ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd, gallai olygu gostyngiad o 1.4% mewn termau real yng nghyllid llywodraeth leol yng Nghymru yn 2027/28 a 2028/29, yn ôl asesiad Dadansoddi Cyllid Cymru. Trwy ymgorffori'r rhagolwg hwn ym model ariannol y Cyngor ar gyfer y tair blynedd nesaf, mae'n awgrymu y gallai'r bwlch cyllido fod dros £15m, cyn cynyddu'r dreth. Er y gallai balansau cyffredinol y Cyngor helpu i liniaru'r effaith yn y tymor byr, bydd y Cyngor yn wynebu penderfyniadau anodd ynglŷn â gostwng gwariant ar ôl gwario'r balansau.

Dywedodd y Cadeirydd fod nifer o sylwadau wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn pwysleisio y byddai'n haws i gynghorau gynllunio'n strategol pe byddai arian grant annisgwyl, sy'n aml yn cael ei dderbyn yn hwyr yn y flwyddyn ariannol ac sy'n newid y sefyllfa ariannol yn sylweddol, yn cael ei ymgorffori yn y Grant Cynnal Refeniw. Tynnodd sylw hefyd at fanteision setliadau ariannol aml-flwyddyn fyddai'n rhoi mwy na blwyddyn yn unig o sicrwydd i gynghorau ynglŷn â'u cyllid.

Cyfeiriodd y Cyngorydd Robin Williams at asesiad Archwilio Cymru o gynaliadwyedd ariannol y Cyngor, a ddaeth i'r casgliad nad oes gan y Cyngor strategaeth ffurfiol ar hyn o

bryd ar gyfer ei gynaliadwyedd ariannol yn y tymor hir. Nododd fod cynllunio ar gyfer y tymor hir yn heriol pan fod cyllidebau'n cael eu gosod yn flynyddol. Ychwanegodd fod sefyllfa ariannol y Cyngor yn ymddangos yn iach ar hyn o bryd, ond gallai wynebu bwlch ariannu o £15m yn ystod y tair blynedd nesaf, a gallai hynny wagio ei gronfeydd wrth gefn oni bai bod mesurau i ostwng gwariant yn cael eu nodi a'u gweithredu.

Penderfynwyd

- **Nodi'r sefyllfa a nodir yn Atodiadau A, B ac C yr adroddiad mewn perthynas ag alldro ariannol yr Awdurdod ar gyfer 2024/25.**
- **Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2024/25, y manylir arnynt yn Atodiad CH.**
- **Nodi'r modd y caiff costau asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro ar gyfer 2024/25 yn Atodiadau D a DD.**
- **Nodi bod amcangyfrif o falansau cyffredinol y Cyngor ar 31 Mawrth 2025 yn £18.166m.**

**Y Cynghorydd Gary Pritchard
Cadeirydd**

Cyngor Sir Ynys Môn

Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	17 Gorffennaf 2025
Pwnc / Testun:	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
Deilydd(ion) Portffolio:	Y Cynghorydd Gary Pritchard
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro
Awdur yr Adroddiad:	Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
Aelodau Lleol:	Amherthnasol

A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Awst 2025 – Mawrth 2026**;

adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgrwtini'r Cyngor;

nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

-

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydy'.

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? Amherthnasol.
--

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	
2	A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut?	
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhwch wybod gyda phwy.	
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	
5	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	
7	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	

E	Gyda phwy yr ymgynghoroch?	Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Tîm Arweinyddiaeth.
2	Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)	Gweler uchod.
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	Gweler uchod.
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth (TG)	
7	Caffael	

E	Gyda phwy yr ymgynghoroch?	Beth oedd eu sylwadau?
8	Sgriwtini	Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyddrafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt.
9	Aelodau Lleol	Ddim yn berthnasol.

F - Atodiadau:
Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Awst 2025 – Mawrth 2026

Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth):

Cyngor Sir Ynys Môn

Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

Cyfnod: Awst 2025 – Mawrth 2026

Tudalen 10

Mae'r flaen raglen waith hon yn rhestru'r holl benderfyniadau y mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud a pha fusnes y bydd y pwyllgorau sgrwtini yn ei ystyried ynghyd â phryd y bydd y materion hynny'n cael eu trafod. Mae hefyd yn rhestru unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud mewn perthynas â phenderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud gan y Cyngor llawn.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig.

Mae'r flaen raglen waith yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol. Nid yw'r ffaith nad yw penderfyniad wedi'i gynnwys yn y flaen raglen waith yn atal materion brys neu rai na ragwelwyd rhag cael eu hystyried.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Diweddarwyd ddiwethaf ar 9 Gorffennaf 2025

Medi 2025

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod 23 Medi 2025	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
	Hunanasesiad ac Adrodd ar Berfformiad	Cyng Carwyn Jones	Cyngor llawn 25.9.25
	Hunanasesiad Corfforaethol Drafft 2024/25	Cyng Carwyn Jones	
	Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 1, 2025/26	Cyng Carwyn Jones	Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol 17.9.25
	Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 1, 2025/26	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Adnoddau 11.9.25
	Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 1, 2025/26	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Adnoddau 11.9.25
	Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 1, 2025/26	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Adnoddau 11.9.25
	Cynllun Ariannol Tymor Canolig	Cyng Robin Williams	
	Pryniant hen safle Peboc, Llangefni	Cyng Gary Pritchard	

Tudalen 11

Hydref 2025

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod 21 Hydref 2025	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
	Canlyniadau'r ymgynghoriad ar y cynnig i adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd	Cyng Dafydd Roberts	Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol 15.10.25

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
	Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer dysgwyr 11-18 oed		
	Dogfennau Moderneiddio Cymunedau Dysgu: Achos Busnes	Cyng Dafydd Roberts	

Tachwedd 2025

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod 25 Tachwedd 2025	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
	Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 2, 2025/26	Cyng Carwyn Jones	Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol 18.11.25
	Adroddiad Hunanasesiad, Perfformiad a Llesiant 2024/25	Cyng Carwyn Jones	Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol 18.11.25
	Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 2, 2025/26	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Adnoddau 6.11.25
	Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 2, 2025/26	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Adnoddau 6.11.25
	Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 2, 2025/26	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Adnoddau 6.11.25
	Cynllun Strategol Digidol Addysg	Cyng Dafydd Roberts	Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio 13.11.25

Rhagfyr 2025

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod 16 Rhagfyr 2025	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	

Ionawr 2026

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod 27 Ionawr 2026	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	

Chwefror 2026

Tudalen 13

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod 24 Chwefror 2026	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
	Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 3, 2025/26	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Adnoddau
	Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 3, 2025/26	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Adnoddau
	Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 3, 2025/26	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Adnoddau
	Datganiad polisi trwyddedu alcohol ac adloniant rheoledig	Cyng Nicola Roberts	Cyngor llawn 5.3.26

Mawrth 2026

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod 24 Mawrth 2026	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
	Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 3, 2025/26	Cyng Carwyn Jones	Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol 18.3.26

YNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH
Dyddiad:	17 GORFFENNAF 2025
Pwnc:	ADRODDIAD ALLDRO CYFALAF 2024/25
Deilydd(ion) Portffolio:	ROBIN WILLIAMS - DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID A THAI
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151
Awdur yr Adroddiad:	JEMMA ROBINSON
Ffôn:	
E-bost:	JemmaRobinson@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Amherthnasol
A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau	
Argymhellion I nodi'r sefyllfa alldro drafft ar gyfer rhaglen gyfalaf 2024/25 (yn amodol ar Archwilio). I gymeradwyo ychwanegu £3.074m i gyllideb 2024/25 o ganlyniad i gyllideb ychwanegol a dderbyniwyd yn ystod y chwarter terfynol, sy'n dod â chyllideb derfynol 2024/25 i £78.247m. I gymeradwyo dwyn ymlaen £2,529m o wariant a'r cyllid cysylltiedig i gyllideb 2025/26. Y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2025/26 yw £46.823m.	
Rhesymau Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith adolygu cyllidebau a gwariant a chymeradwyo newidiadau i'r gyllideb.	
Casgliad Mae'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2024/25 yn rhan bwysig ac allweddol o waith y Cyngor yn ystod y flwyddyn, gan gyfrannu at gyflawni Cynllun y Cyngor, ac mae'n defnyddio rhan sylweddol o'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r Cyngor. Mae'r adroddiad yn dangos bod y Cyngor wedi cwblhau 83% o'i wariant a gynlluniwyd yn ystod y flwyddyn ar 86 o brosiectau gwahanol ar draws ystod o wasanaethau, gan wario arian ar brosiectau ledled yr Ynys. Er bod rhywfaint o danwariant, mae'r cyllid ar gyfer y prosiectau heb eu cwblhau hyn yn ddiogel a gellir ei gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf.	
B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?	
Adroddiad er gwybodaeth yw hwn yn bennaf, felly, nid oes unrhyw opsiynau i'w hystyried.	
C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?	
Mae monitro cyllidebau a gwariant y Cyngor yn swyddogaeth sydd wedi'i dynodi i'r Pwyllgor Gwaith, wedi'i ddirprwyo gan y Cyngor.	

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?		
Ydy – cymeradwywyd y gyllideb gyfalaf gychwynnol gan y Cyngor, gyda newidiadau wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.		
D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
Ydy		
Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys?	Mae'r gyllideb gyfalaf yn cyllido buddsoddiadau mewn asedau ac isadeiledd sy'n ofynnol i ganiatáu'r Cyngor gwrdd â'r amcanion hir dymor a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol a'r Strategaeth Gyfalaf.
2	A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?	Bydd rhai o'r buddsoddiadau unigol, e.e. gwaith atal llifogydd, yn atal costau yn y dyfodol, tra bydd eraill, e.e. prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig (CGI), yn lleihau'r ddibyniaeth ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau drytach. Bydd buddsoddi yn asedau'r Cyngor (adeiladau, cerbydau, isadeiledd TG, priffyrdd) yn lleihau costau atgyweirio a chynnal a chadw yn y dyfodol, ac yn lleihau'r risg o'r gwasanaeth yn methu.
3	A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch gyda phwy	Mae'r Cyngor yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a chyrff cyllido eraill i sicrhau cyllid er mwyn darparu ei raglen cyfalaf.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor a'r Rhaglen Gyfalaf 2024/25 wedi bod yn destun ymgynghoriad gyda dinasyddion Ynys Môn.
5	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Bydd asedau newydd sy'n cael eu hadeiladu yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb a rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig. Mae rhaglenni adnewyddu ac amnewid blynyddol hefyd yn cynorthwyo i wella hygyrchedd a galluogi amrywiaeth.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Ddim yn berthnasol.
7	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Mae rhai o'r prosiectau yn y rhaglen gyfalaf yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad y Gymraeg a chynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg, megis yr ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu hadeiladu fel rhan o'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif / Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	Ystyriwyd yr adroddiad yn ystod cyfarfod y TA yn ei gyfarfod ar 1 Gorffennaf 2025, ac mae unrhyw sylwadau a wnaed wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad terfynol.
2	Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)	Awdur yr Adroddiad.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Mae'r Swyddog Monitro yn rhan o'r TA.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	Amherthnasol
7	Sgriwtini	Cafodd yr alldro ei ystyried gan y Panel Sgriwtini Cyllid yn ei gyfarfod ar 10 Gorffennaf 2025.
8	Aelodau Lleol	Amherthnasol
9	Unrhyw gyrff allanol / eraill	Amherthnasol
F - Atodiadau:		
Atodiad A - Adroddiad Alldro Cyfalaf 2024/25 Atodiad B - Crynodeb o Wariant Cyfalaf o gymharu â'r Gyllideb yn ôl Prosiect 2024/25 Atodiad C - Cynlluniau Ychwanegol a ychwanegwyd i'r Rhaglen Gyfalaf yn ystod 2024/25 Atodiad CH - Cynlluniau Ychwanegol / Diwygiadau i Gyllid i'r Rhaglen Gyfalaf yn Chwarter 4		
FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		
• Strategaeth Gyfalaf 2024/25 a'r Gyllideb Gyfalaf, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2024 • Adolygiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2024/25 – Pwyllgor Gwaith 17 Gorffennaf 2025		

1. CYFLWYNIAD

- 1.1.** Mae'r adroddiad canlynol yn nodi'r sefyllfa alldro cyfalaf ar gyfer 2024/25 ac yn darparu gwybodaeth am y cynnydd i gwblhau'r rhaglen gyfalaf yn y flwyddyn ariannol. (Mae Dadansoddiad Manwl wedi'i atodi yn Atodiad B). Dylid nodi bod y ffigurau a nodir yn yr adroddiad yn destun archwiliad a gallent newid wrth i gyfrifon blwyddyn ariannol 2024/25 gael eu cwblhau.
- 1.2.** Ym mis Mawrth 2024, cymeradwyodd y Cyngor raglen gyfalaf gychwynnol o £43.838m ac, ym mis Gorffennaf 2024, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith £15.499m o lithriad o 2023/24 i'w gario ymlaen a'i ychwanegu at gyllideb 2024/25. Roedd hyn yn arwain at gyllideb ddiwygiedig o £59.337m.
- 1.3.** Yn ystod y flwyddyn, ychwanegir cynlluniau ychwanegol at y rhaglen gyfalaf, i adlewyrchu newidiadau cyllido ac unrhyw gyllid grant ychwanegol a dderbynnir yn ystod y flwyddyn. At ei gilydd, mae £18.910m wedi'i ychwanegu at y rhaglen gyfalaf, gyda £3.074m wedi'i ychwanegu yn y chwarter olaf. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r ychwanegiadau yn y chwarter olaf. Dangosir y cynlluniau unigol sydd wedi'u hychwanegu at y rhaglen yn ystod 2024/25, a sut mae'r cynlluniau'n cael eu cyllido, yn Atodiad C. Dangosir y cynlluniau ychwanegol a ychwanegwyd at y rhaglen yn ystod chwarter olaf 2024/25 yn Atodiad CH.
- 1.4.** Roedd cyfanswm y rhaglen gyfalaf o £78.247m yn cael ei gyllido fel y dangosir yn Nhabl 1 isod:-

Tabl 1
Cyllid Gwariant a Gynlluniwyd ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2024/25

Ffynonellau Gyllido	Cyllideb Ddechreuol £'000	Llithriant £'000	Prosiectau Ychwanegol a Ychwanegwyd £'000	Cyfanswm Cyllid £'000	% y Cyfanswm Cyllid
Grant Cyfalaf	20,075	10,039	17,634	47,748	61.0%
Benthyca â Chefnogaeth	2,634	3,233	116	5,983	7.6%
Benthyca Digefnogaeth	3,636	0	2,169	5,805	7.4%
Cyfraniadau Refeniw	17,315	754	(2,688)	15,381	19.7%
Derbyniadau Cyfalaf	178	345	512	1,035	1.3%
Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig	0	1,112	1,049	2,161	2.8%
Benthyciadau Eraill (dim PWLB)	0	16	118	134	0.2%
CYFANSWM CYLLID	43,838	15,499	18,910	78,247	100.0%

2. ALLDRO GWARIANT CYFALAF 2024/25

- 2.1.** Cyfanswm y gwariant a gafwyd yn ystod 2024/25 oedd £64.726m, sy'n cyfateb i 83% o'r gyllideb a wariwyd. Mae hyn yn cymharu â 2023/24 pan gafodd 75% o'r gyllideb a gymeradwywyd ei gwario.
- 2.2.** Mae'r rhaglen yn cynnwys 2 brosiect lle mae'r Cyngor yn dal y cyllid ond mae'n dibynnu ar gyrff allanol i ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r gwariant (Canolfan Glanhwfa a Chaergybi: Trawsnewid yn seiliedig ar Ddiwylliant a Threftadaeth). Os caiff y ddau gynllun hyn eu hepgor o'r ffigurau, mae cyfanswm y gyllideb a wariwyd yn cynyddu i 88%.

- 2.3. Dangosir crynodeb o'r gyllideb a gymeradwywyd a'r gwariant gwirioneddol ar gyfer 2024/25, yn ôl gwasanaeth, yn Nhabl 2 isod:-

Tabl 2
Cyllideb Derfynol a Gymeradwywyd a Gwariant Gwirioneddol yn ôl Gwasanaeth 2024/25

Gwasanaeth	Cyllideb a Gymeradwywyd £'000	Cyfanswm Gwariant £'000	(Tan) / Gorwariant £'000	% y Cyfanswm Cyllid
Cronfa Gyffredinol Tai	1,996	1,966	(30)	98.5
CRT Tai	29,573	27,468	(2,105)	92.9
Dysgu Gydol Oes	9,385	8,265	(1,120)	88.1
Economaidd ac Adfywio	14,793	7,948	(6,845)	53.7
Priffyrdd	7,041	6,261	(780)	88.9
Rheoli Gwastraff	264	239	(25)	90.5
Eiddo	13,222	11,697	(1,525)	88.5
Trawsnewid	755	396	(359)	52.5
Gwasanaethau Oedolion	1,218	486	(732)	39.9
CYFANSWM 2024/25	78,247	64,726	(13,521)	82.7
Cyllidir Gan				
Grant Cyfalaf	47,748	45,883	(1,865)	96.1
Derbyniadau Cyfalaf	1,035	1,173	138	113.3
Benthyca â Chefnogaeth	5,983	4,243	(1,740)	70.9
Benthyca Digefnogaeth	5,805	2,491	(3,314)	42.9
Cyfraniad Refeniw	15,381	9,126	(6,255)	59.3
Benthyciadau Eraill (dim PWLB)	134,	119	(15)	88.8
Arian Cyfalaf Wrth Gefn	2,161	1,691	(470)	78.3
CYFANSWM CYLLID	78,247	64,726	(13,521)	82.7

- 2.4. Mae'r prif brosiectau sydd wedi tanwario eu dyraniad cyllideb a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn wedi'u manylu yn Nhabl 3 isod:-

Tabl 3
Prosiectau sydd wedi Tanwario'n Sylweddol yn ystod 2024/25

Cynllun	Tanwariant £'000	Sylwadau
Gwelliannau Cyfalaf CRT	2,104	Am fanylion pellach ar wariant cyfalaf y CRT, gweler adroddiad Alldro'r CRT, a gyflwynir i'r Pwyllgor yma ar 17 Gorffennaf 2025.
Adnewyddu Adeiladau Ysgolion a'r Cyngor, gan gynnwys addasiadau i'r anabl	850	Oherwydd dyfarnwyd cyllid grant ychwanegol yn y flwyddyn, roedd y tanwariant yma wedi'i ddisgwyl. Defnyddiwyd Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) i gyllido gwaith i alluogi Mynediad i'r Anabl yn Adeiladau Addysg ar gyfer 2024/25. Disgwylir bydd y pwysau ar y gyllideb yma yn cynyddu yn y dyfodol pan fydd canlyniadau archwiliadau mynediad yn darparu darlun mwy cyflawn o'r gwaith sydd ei angen. Canlyniad y dyfarniad Grant Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw 2024/25 oedd tanwariant yng nghyllideb cyfalaf adeiladau Addysg. Mae penderfyniad ymwybodol i beidio â cheisio gwrthio'r gwariant allan ar frys ac, yn hytrach, ei ddisodli yn erbyn gwariant ymrwymedig a'i gario drosodd i raglen fesuredig ar gyfer 2025/26.
Adfywio Caergybi (THI Cam II)	734	Cafwyd oedi sylweddol o fewn y rhaglen, yn benodol mewn perthynas â chaffael a rhai prosiectau penodol nad ydynt yn mynd rhagddynt. Ni fydd unrhyw gyllid yn cael ei golli a bydd cyllideb newydd ar gyfer 2025/26 yn cael ei dyrannu.
Rhaglen Adfywio Llywodraeth y DU Caergybi	4,982	Oherwydd oedi sylweddol o fewn y broses o gyflawni'r rhaglen yn gyffredinol, roedd tanwariant sylweddol yn debygol. Fodd bynnag, mae estyniad wedi'i wneud i fis Medi 2025 (gyda'r tebygolrwydd o estyniad pellach) ac, felly, ni fydd unrhyw gyllid yn cael ei golli.
Rhaglen Amnewid Gwres Carbon Isel Adeiladau'r Cyngor	895	Y ffi cadw yw £522k o'r tanwariant yma yr ydym wedi ei hawlio ar y prosiectau hyd yma. Caiff y rhain eu dal a'u rhyddhau pan fo'r prosiectau wedi eu cwblhau'n llwyddiannus. Mae £373k wedi codi o gais am amrywiad i Lywodraeth Cymru ar draws dau o'r prosiectau ar gyfer gwaith na ellid ei gwblhau o fewn 2024/25, a chytunwyd i'w gario drosodd i'w gwblhau yn 2025/26.
Canolfan Glanhwfa	600	Mae'r gwaith adeiladu ar gyfer y prosiect hwn wedi dechrau a bydd yn cymryd 12 mis, felly, bydd y cyllid yn cael ei rannu rhwng 2 flynedd ariannol. Bydd y mwyafrif o'r cyllid yn cael ei wario yn 2025/26.
Isadeiledd Gwefru Cerbydau Trydan	310	Derbyniwyd cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, gydag amodau i'w defnyddio o fewn y flwyddyn ariannol benodol. Cytunwyd byddai tanwariant o'r dyraniad cyllid gwreiddiol yn cael ei gario ymlaen am flwyddyn arall ac, felly, ni fydd unrhyw gyllid yn cael ei golli.
Isadeiledd Ymwelwyr	438	£193k o'r tanwariant yw'r gyllideb wreiddiol a gyllidwyd gan y Cyngor, a gofynnir i'w lithro oherwydd derbyniwyd grant SPF yn y flwyddyn a oedd yn talu am y gwariant ar y prosiectau hyn. Defnyddiwyd y cyllid SPF yn llawn yn erbyn y prosiectau hyn, fodd bynnag, cafodd yr hyn a gyllidwyd yn wreiddiol i fod yn wariant cyfalaf ei symud i refeniw a'i gyllido o fewn refeniw. Ni chollwyd unrhyw gyllid.
	10,913	
Prosiectau Eraill	2,608	
Cyfanswm Tanwariant 2024/25	13,521	

3. LITHRIANT I 2025/26

- 3.1.** Gall prosiectau cyfalaf gymryd amser i'w cwblhau ac, er bod cyllid yn cael ei ddyrannu fesul blwyddyn ariannol, gall nifer o ffactorau arwain at brosiectau ddim yn cyflawni o fewn eu hamserlen. Gall y rhain gynnwys problemau cynllunio, prisiau tendr yn uwch na'r gyllideb, aros am waith neu ganiatâd gan drydydd partïon, problemau cyflenwi deunyddiau neu broblemau annisgwyl sydd ond yn dod i'r amlwg wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen.
- 3.2.** O ystyried bod mwyafrif rhaglen gyfalaf y Cyngor yn cael ei gyllido gan grant, prif flaenoriaeth y Cyngor yw sicrhau nad yw'r oedi wrth gwblhau yn torri amodau'r grant, gan arwain at golli'r grant cyfan neu ran ohono. Efallai y bydd rhaid ail-negodi amodau grant gyda chyllidwyr yn sgil hyn. Nid yw prosiectau a gyllidir o fenthyciadau neu o gronfeydd wrth gefn y Cyngor ei hun yn cario'r risg o golli cyllid a gellir eu cario ymlaen o un flwyddyn ariannol i'r llall fel arfer.
Mae'r adroddiad yn bennaf er gwybodaeth yn unig ac nid oes angen unrhyw benderfyniad, felly, nid oes opsiynau y dylid eu hystyried.	
C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?	
Fel y corff sydd yn gyfrifol gan y Cyngor i sicrhau llywodraethu da o Reoli'r Trysorlys, mater i'r Pwyllgor Gwaith i ystyried yw hwn. Yn ogystal, mae'n sicrhau cydymffurfiaeth gyda Deddf Llywodraeth Leol 2003 a Chôt Darbodus CIPFA 2021.	

CH – A yw'r polisi hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?		
Nid oes angen penderfyniad ffurfiol, ond mae'r wybodaeth sydd yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad yn rhoi sicrwydd fod y Cyngor yn cydymffurfio hefo Strategaeth Blynyddol Rheoli'r Trysorlys, a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2024.		
D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
Nid oes angen penderfyniad ynglŷn a'r adroddiad hwn fydd yn effeithio ar sefyllfa gyllidebol y Cyngor.		
DD – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Mae gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys yn allweddol er mwyn hwyluso cynaliadwyedd anghenion hirdymor yr Ynys gan fod cynlluniau benthyca yn helpu i gyllido gwariant cyfalaf i sicrhau bod asedau ar gael nawr ac yn y dyfodol. Mae'n rhaid i gynlluniau trysorlys hefyd fod yn fforddiadwy er mwyn sicrhau nad yw cenedlaethau'r dyfodol yn cael eu rhoi dan anfantais o ganlyniad i benderfyniadau Rheoli'r Trysorlys sy'n cael eu gwneud yn y tymor byr a chanolig.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?	Rhaid i'r strategaeth a'r gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys fod yn fforddiadwy er mwyn lliniaru unrhyw effaith ar y dyfodol. Gall rhywfaint o wariant cyfalaf sy'n cael ei gyllido drwy fenthyca, megis y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, a chynlluniau buddsoddi i arbed eraill a gyllidir gan fenthyca, helpu i leihau costau yn y dyfodol.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod â'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.	Mae gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys yn aml yn cyllido prosiectau cyfalaf mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, megis Llywodraeth Cymru.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini a effeithir yn uniongyrchol gan y penderfyniad? Esboniwrch sut.	Ymgynghorir â dinasyddion Ynys Môn bob blwyddyn ynglŷn â'r rhaglen gyfalaf blynyddol, ac mae elfennau o'r rhaglen honno yn ddibynnol ar weithgareddau Rheoli'r Trysorlys.
5	Nodwch unrhyw effeithiau posibl byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a amddiffynnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Bydd asedau newydd sy'n cael eu cyllido drwy fenthyca yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb a'r rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig. Mae rhaglenni adnewyddu ac amnewid blynyddol hefyd yn helpu i wella hygyrchedd a galluogi amrywiaeth.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rheini sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Monitro Statudol o weithgareddau Rheoli'r Trysorlys yw hwn, ac nid yw'n benderfyniad strategol.
7	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Mae gan rai prosiectau sydd wedi eu cyllido drwy fenthyca yn cael effaith bositif ar ddatblygiad a chynnydd yr Iaith Gymraeg, megis ysgolion gyfrwng y Gymraeg a adeiladwyd fel rhan o Raglen Ysgolion y 21ain Ganrif / Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	Dim sylwadau pellach.
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	Adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	Dim sylwadau pellach.
4	Adnoddau Dynol	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Amherthnasol
7	Caffael	Amherthnasol
8	Sgriwtini	Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad ei chysidro gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 16 Gorffennaf 2025.
9	Aelodau Lleol	Amherthnasol.
10	Eraill	Amherthnasol
F - Atodiadau:		
Atodiad A – Adolygiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys am 2024/25		
FF - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		
- Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024/25, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2024 - Strategaeth Gyfalaf 2024/25, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2024		

1. CYDYMFFURFIAETH Â GOFYNION ADRODD

1.1. Yn unol â gofynion Côt Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys (y Côt) a Chôt Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (y Côt Darbodus), mae'n rhaid cyflwyno nifer o adroddiadau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn yn ystod y flwyddyn. Mae manylion yr adroddiadau hyn wedi'u crynhoi yn Nhabl 1 isod:-

Tabl 1
Crynodeb o'r Adroddiadau Rheoli'r Trysorlys a gyflwynwyd i'r Pwyllgorau a'r Cyngor llawn

Adroddiad	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio	Y Pwyllgor Gwaith	Cyngor Llawn
Strategaeth Rheoli'r Trysorlys Blyneddol 2024/25	8 Chwefror 2024	20 Chwefror 2024	7 Mawrth 2024
Adroddiad Diweddaru ar y Trysorlys Chwarter 1 2024/25	Wedi'i Ddirprwyo i'r Deilydd Portffolio - Cyhoeddwyd 21 Ionawr 2025		
Adroddiad Diweddaru ar y Trysorlys Canol Blwyddyn 2024/25	11 Chwefror 2025	18 Chwefror 2025	6 Mawrth 2025
Adroddiad Diweddaru ar y Trysorlys Chwarter 3 2024/25	Wedi'i Ddirprwyo i'r Deilydd Portffolio - Cyhoeddwyd 10 Mawrth 2025		
Adroddiad Adolygu Blyneddol 2024/25	16 Gorffennaf 2025	17 Gorffennaf 2025	25 Medi 2025

2. ADOLYGIAD O 2024/25 - FFACTORAU ALLANOL

2.1. Mae nifer o ffactorau'n dylanwadu ar weithgareddau Rheoli'r Trysorlys y Cyngor sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor ond sy'n cael effaith mawr ar benderfyniadau'r Cyngor o ran benthyca a buddsoddi.

2.2. Cyfraddau Llog

Mae cyfraddau llog ar yr adeg y caiff penderfyniadau eu gwneud a'r rhagolygon ar gyfer cyfraddau yn cael effaith sylweddol ar benderfyniadau yn ymwneud â rheoli'r trysorlys ac fe all effeithio ar p'un a yw'r Cyngor yn benthyca'n allanol, hyd unrhyw fenthyca, pryd y bydd y Cyngor yn ymrwymo i fuddsoddiadau tymor hwy ac ymhle mae'r Cyngor yn buddsoddi ei arian dros ben.

Ar ddechrau 2024/25, roedd cyfradd sylfaenol Banc Lloegr yn 5.25% ond, wrth i chwyddiant ostwng ac wrth i'r economi arafu, cafodd y gyfradd ei gostwng i 5.00% ym mis Awst 2024, 4.75% ym mis Tachwedd 2024 a 4.5% ym mis Chwefror 2025.

Mae disgwyl i gyfraddau barhau i ostwng yn 2025, a chafwyd gostyngiad i 4.25 % ym mis Mai 2025. Disgwylir 2 neu 3 ostyngiad pellach yn 2025, a rhagwelir y bydd y cyfraddau tua 3.5% erbyn diwedd 2025.

2.3. Economi'r DU

Mae economi'r DU yn dal i weithredu yn erbyn cefndir o ddigwyddiadau byd-eang mawr sy'n effeithio ar yr economi byd-eang. Maent yn cynnwys y rhyfel parhaus yn Wcráin a'r angen i wario mwy ar amddiffyn, newid Arlywydd yn yr Unol Daleithiau, yr Unol Daleithiau'n cyflwyno tariffau uwch a'r perygl y gall economi'r byd arafu o ganlyniad ac effaith hynny ar brisiau olew ac ynni.

Yn y DU, bu newid yn y llywodraeth genedlaethol, ac mae twf yr economi yn brif flaenoriaeth i'r Llywodraeth Lafur newydd, ynghyd â cheisio cyllido gwasanaethau cyhoeddus heb gynyddu treth incwm, TAW neu yswiriant gwladol cyflogai a heb gynyddu benthyca allanol. O ganlyniad, mae'r Llywodraeth wedi mabwysiadu set newydd o reolau cyllidol sy'n caniatáu cynyddu cyllidebau ar ddechrau'r Senedd newydd, ond bydd rhaid eu cwtogi yn nes ymlaen.

Rhagwelir y bydd y gwariant ychwanegol yn 2025/26 a 2026/27 yn ysgogi twf yn yr economi, a fydd yn cynyddu refeniw treth yn y dyfodol. Bydd hyn, ynghyd â lleihad yn rhai o gyllidebau'r Llywodraeth, yn enwedig y gyllideb les, yn galluogi'r Llywodraeth i gyrraedd ei dargedau cyllidol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhoi llawer o hyblygrwydd i'r Llywodraeth ac mae'r risg o beidio â chyrraedd y targedu cyllidol hyn yn uchel.

Bydd y cynnydd yng nghyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr yn sicrhau refeniw ychwanegol ond fe all effeithio ar dwf a bydd yn cynyddu costau'r sector cyhoeddus, a fydd yn lleihau effaith net y newid.

Roedd twf economaidd y DU yn dal i fod yn isel iawn yn ystod 2024/25 gyda dim twf yn ystod y 2 chwarter cyntaf, twf o 0.4% yn y trydydd chwarter a thwf o 0.5% yn y chwarter olaf. Rhagwelir y bydd twf yn aros rhwng 1% a 2% yn 2025 a hyd at 2028.

Roedd Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn 3.2% ar ddechrau 2024/25, ond syrthiodd yn ystod flwyddyn ac, erbyn mis Medi 2024, roedd wedi gostwng i 1.7%, cyn codi i 3% ym mis Ionawr 2025, yn bennaf o ganlyniad i brisiau ynni cynyddol, ac yna syrthio eto i 2.6% ym mis Mawrth 2025. Rhagwelir y bydd yn codi eto yn ystod 2025, ac y bydd wedi cyrraedd uchafbwynt o 3.5% erbyn diwedd yr haf, cyn gostwng yn nes at darged Banc Lloegr, sef 2.0%, a rhagwelir y bydd yn 2.7% erbyn diwedd 2025/26.

3. GWARIANT CYFALAF 2024/25

3.1. Mae gwariant cyfalaf yn cael effaith sylweddol ar weithgarwch Rheoli'r Trysorlys y Cyngor. Gellir cyllido gwariant cyfalaf naill ai:-

- ar unwaith drwy adnoddau cyfalaf neu refeniw (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau refeniw ac ati), nad yw'n cael unrhyw effaith ar angen y Cyngor i fenthyca; neu
- drwy fenthyca: Os nad oes digon o gyllid ar gael, neu os penderfynir peidio â defnyddio adnoddau, bydd y gwariant cyfalaf yn arwain at yr angen i fenthyca.

3.2. Mae Tabl 2 isod yn cymharu'r gwariant cyfalaf drafft ar gyfer 2024/25 gyda'r cyllidebau gwreiddiol a diwygiedig:-

Tabl 2
Gwariant Cyfalaf 2024/25

	Cyllideb Wreiddiol 2024/25 £'m	Cyllideb Ddiwygiedig 2024/25 £'m	2024/25 Gwirioneddol £'m
Cronfa Gyffredinol	13.8	48.7	37.2
CRT	30.0	29.6	27.5
Cyfanswm Gwariant Cyfalaf	43.8	78.3	64.7
Cyllidwyd Gan			
Grantiau'r Gronfa Gyffredinol, Arian wrth Gefn a Chyfraniadau Refeniw	9.0	40.4	30.4
Grantiau CRT a Chyfraniadau Refeniw	29.1	26.0	27.5
Benthyciadau'r Gronfa Gyffredinol	4.8	8.0	6.8
Benthyciadau'r CRT	0.9	3.9	0.0
Cyfanswm Cyllid	43.8	78.3	64.7
Cyfanswm Gwariant a Gyllidwyd trwy Fenthycha	5.7	11.9	6.8

3.3. Mae'r prif amrywiadau o ran gwariant cyfalaf (dros £500k) wedi eu nodi yn Nhabl 3 isod:-

Tabl 3
Amrywiadau Gwariant Cyfalaf 2024/25

Cynllun	Tanwariant £'000	Sylwadau
Gwelliannau Cyfalaf CRT	2,104	Am fanylion pellach ar wariant cyfalaf y CRT, gweler adroddiad Alldro'r CRT, a gyflwynir i'r Pwyllgor yma ar 17 Gorffennaf 2025.
Adnewyddu Ysgolion ac Adeiladau Cyngor, yn cynnwys addasiadau ar gyfer yr anabl	850	Oherwydd dyfarnwyd cyllid grant ychwanegol yn y flwyddyn, roedd y tanwariant yma wedi'i ddisgwyl. Defnyddiwyd Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) i gyllido gwaith i alluogi Mynediad i'r Anabl yn Adeiladau Addysg ar gyfer 2024/25. Disgwylir bydd y pwysau ar y gyllideb yma yn cynyddu yn y dyfodol pan fydd canlyniadau archwiliadau mynediad yn darparu darlun mwy cyflawn o'r gwaith sydd ei angen. Canlyniad y dyfarniad Grant Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw 2024/25 oedd tanwariant yng nghyllideb cyfalaf adeiladau Addysg. Mae penderfyniad ymwybodol i beidio â cheisio gwrthio'r gwariant allan ar frys ac, yn hytrach, ei ddisodli yn erbyn gwariant ymrwymedig a'i gario drosodd i raglen fesuredig ar gyfer 2025/26.

Cynllun	Tanwariant £'000	Sylwadau
Adfywio Caergybi (THI Cam II)	734	Cafwyd oedi sylweddol o fewn y rhaglen, yn benodol mewn perthynas â chaffael a rhai prosiectau penodol nad ydynt yn mynd rhagddynt. Ni fydd unrhyw gyllid yn cael ei golli a bydd cyllideb newydd ar gyfer 2025/26 yn cael ei dyrannu.
Rhaglen Adfywio Llywodraeth DU yng Nghaergybi	4,982	Oherwydd oedi sylweddol o fewn y broses o gyflawni'r rhaglen yn gyffredinol, roedd tanwariant sylweddol yn debygol. Fodd bynnag, mae estyniad wedi'i wneud i fis Medi 2025 (gyda'r tebygolrwydd o estyniad pellach) ac, felly, ni fydd unrhyw gyllid yn cael ei golli.
Rhaglen Amnewid Gwres Carbon Isel Adeiladau'r Cyngor	895	Y ffi cadw yw £522k o'r tanwariant yma yr ydym wedi ei hawlio ar y prosiectau hyd yma. Caiff y rhain eu dal a'u rhyddhau pan fo'r prosiectau wedi eu cwblhau'n llwyddiannus. Mae £373k wedi codi o gais am amrywiad i Lywodraeth Cymru ar draws dau o'r prosiectau ar gyfer gwaith na ellid ei gwblhau o fewn 2024/25, a chytunwyd i'w gario drosodd i'w gwblhau yn 2025/26.
Canolfan Glanhwfa	600	Mae'r gwaith adeiladu ar gyfer y prosiect hwn wedi dechrau a bydd yn cymryd 12 mis, felly, bydd y cyllid yn cael ei rannu rhwng 2 flynedd ariannol. Bydd y mwyafrif o'r cyllid yn cael ei wario yn 2025/26.
Isadeiledd Gwefru Cerbydau Trydan	310	Derbyniwyd cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, gydag amodau i'w defnyddio o fewn y flwyddyn ariannol benodol. Cytunwyd byddai tanwariant o'r dyraniad cyllid gwreiddiol yn cael ei gario ymlaen am flwyddyn arall ac, felly, ni fydd unrhyw gyllid yn cael ei golli.
Seilwaith Ymwelwyr	438	£193k o'r tanwariant yw'r gyllideb wreiddiol a gyllidwyd gan y Cyngor, a gofynnir i'w lithro oherwydd derbyniwyd grant SPF yn y flwyddyn a oedd yn talu am y gwariant ar y prosiectau hyn. Defnyddiwyd y cyllid SPF yn llawn yn erbyn y prosiectau hyn, fodd bynnag, cafodd yr hyn a gyllidwyd yn wreiddiol i fod yn wariant cyfalaf ei symud i refeniw a'i gyllido o fewn refeniw. Ni chollwyd unrhyw gyllid.
	10,913	
Prosiectau Eraill	2,608	
Cyfanswm Tanwariant 2024/25	13,521	

4. EFFAITH AR SEFYLLFA ARIANNOL Y CYNGOR

4.1. Mae gwariant cyfalaf y Cyngor a'r modd y caiff ei gyllido yn effeithio ar sefyllfa ariannol y Cyngor yn gysylltiedig â'r isod:-

- Y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) - sef anghenion benthyca sylfaenol y Cyngor, h.y. gwariant cyfalaf sydd heb ei gyllido drwy grantiau, cyfraniadau refeniw neu gronfeydd wrth gefn;
- Lefel y benthyca;
- Y cydbwysedd rhwng benthyca allanol a benthyca sydd wedi'i gyllido gan falansau arian parod y Cyngor (benthyca mewnol);
- Cronfeydd wrth gefn a darpariaethau'r Cyngor.

4.2. Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC)

Er mwyn sicrhau bod lefelau benthyca'n ddarbodus yn y tymor canolig ac at ddibenion cyfalaf yn unig, dylai'r Cyngor sicrhau nad yw ei fenthycia allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyniad cyllido cyfalaf ar gyfer y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrifon ar gyfer unrhyw ofynion cyllido cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flwyddyn ariannol nesaf. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu nad yw'r Cyngor yn benthyca i gefnogi gwariant refeniw.

Tabl 4
Gofyniad Cyllido Cyfalaf a Benthyca Allanol

	Cyllideb £'000	Gwirioneddol £'000	Amrywiant £'000
Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC)			
Balans Agoriadol	145,754	145,754	-
Gwariant Cyfalaf	78,247	64,726	(13,521)
Asedau Hawl Defnydd (prydlesau) wedi'i ddwyn ymlaen i'r Fantolen	0	1,715	1,715
Cyllido drwy Grantiau, Balansau a Refeniw	(66,325)	(57,873)	8,452
Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI)	(1,743)	(1,710)	33
Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) – Asedau Hawl Defnydd	0	(327)	(327)
Balans Cau	155,933	152,285	(3,648)

4.3. Ad-dalu Dyledion

Yn ystod 2024/25, gwnaed ad-daliadau blynyddol ar fenthyciadau blwydd-dal BBGC gwerth £18k a benthyciadau Salix di-log gwerth £364k. Yn ogystal â hyn, cafodd dau fenthyciad BBGC tymor penodol eu had-dalu, sef:-

- £569,200, benthyciad a ddechreuodd ar 18 Hydref 1983 ar gyfradd o 7.875%
- £284,600, benthyciad a ddechreuodd ar 4 Mai 1995 ar gyfradd o 8.5%

Ni chafodd y benthyciadau hyn eu disodli gan unrhyw fenthyciadau allanol newydd.

4.4. Benthyca Mewnol ac Allanol

Pan fo balansau arian parod yn ddigonol a phan fo cyfraddau buddsoddi'n is na chost benthyciadau tymor hir, mae'r Cyngor wedi dilyn polisi o fenthycia mewnol, drwy ddefnyddio balansau arian parod i gyllido gwariant cyfalaf neu i gyllido ad-dalu benthyciadau, yn hytrach na chymryd benthyciadau allanol. Mae'r polisi'n sicrhau cymaint o arbedion â phosibl. Y ffigwr benthyca mewnol yw'r gwahaniaeth rhwng y GCC a'r benthyciadau allanol sy'n ddyledus. Mae hyn wedi'i grynhoi yn Nhabl 5 isod: -

Tabl 5
Benthyca Mewnol ac Allanol

	Cyllideb £'000	Gwirioneddol £'000	Amrywiant £'000
Benthyca Allanol			
Balans Agoriadol	122,411	122,411	0
Benthyciadau Newydd	11,922	908	(11,014)
Ad-dalu Benthyciadau	(1,236)	(1,236)	0
Balans Cau	133,097	122,083	(11,014)
Ceir dadansoddiad o'r benthyciadau dyledus fesul blwyddyn ad-dalu, fesul balans dyledus y flwyddyn, fesul math o fenthyciad a fesul cronfa yn Atodiadau 1 i 4.			
Benthyca Mewnol			
Balans Agoriadol	23,343	23,343	0
Benthyca Newydd i Ddisodli Benthyca Mewnol	0	0	0
Benthyca Newydd i Gyllido Ad-daliadau Benthyciadau	0	0	0
Benthyca Newydd i Gyllido Gwariant Cyfalaf	0	5,945	5,945
Ad-daliadau Benthyciadau yn ystod y Flwyddyn	1,236	1,236	0
Asedau Hawl Defnydd (prydlesau) wedi'i ddwyn ymlaen i'r Fantolen	0	1,715	1,715
Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI)	(1,743)	(1,710)	33
Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) – Asedau Hawl Defnydd	0	(327)	(327)
Balans Terfynol	22,836	30,202	7,366

4.5. Mae cyfnod aeddfedu a chyfradd gyfartalog benthyciadau presennol wedi'u nodi yn Nhabl 6 isod:-

Tabl 6
Cyfnod Aeddfedu Cyfartalog a Chyfradd Llog Cyfartalog Benthyciadau Dyledus

	31 Mawrth 2025		31 Mawrth 2024	
	Cyfnod Aeddfedu Cyfartalog	Cyfradd Llog Cyfartalog	Cyfnod Aeddfedu Cyfartalog	Cyfradd Llog Cyfartalog
BBGC Aeddfedu	19.21 Mlynedd	5.1%	19.33 Mlynedd	5.2%
BBGC Blwydd-dal	5.37 Mlynedd	9.4%	6.37 Mlynedd	9.4%
Salix	5.50 Mlynedd	0.0%	5.57 Mlynedd	0.0%

5. BUDDSODDIADAU

5.1. Wrth i falansau arian parod gael eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf, mae'r symiau sydd ar gael i'w buddsoddi yn lleihau dros gyfnod o amser. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, roedd gan y Cyngor £15m mewn buddsoddiadau tymor sefydlog, £16.4m mewn cyfrifon galw a £0.27m mewn cyfrifon cyfredol, sef buddsoddiadau arian parod gwerth cyfanswm o £31.67m.

- 5.2. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd gwerth y buddsoddiadau arian parod wedi gostwng i £13.174m, £7m mewn buddsoddiadau tymor sefydlog, £5.96m mewn cyfrifon galw a £0.214m mewn cyfrifon cyfredol.
- 5.3. Ceir dadansoddiad o'r buddsoddiadau fesul chwarter a fesul gwrthbarti yn Atodiad 5 a 6.
- 5.4. Ar gyfartaledd, cafodd £14.589m ei fuddsoddi mewn buddsoddiadau tymor sefydlog yn ystod 2024/25, gyda chyfradd elw cyfartalog o 5.05%. Mewn cymhariaeth, yn 2023/24, cafodd £15m ei fuddsoddi ar gyfartaledd gyda chyfradd elw cyfartalog o 5.18%.
- 5.5. Yn 2024/25, cafodd £22.175m ei gadw mewn cyfrifon galw ar gyfartaledd, gyda chyfradd elw cyfartalog o 3.88%. Mewn cymhariaeth, £16.602m oedd y balans cyfartalog yn 2023/24, gyda chyfradd elw cyfartalog o 4.11%.
- 5.6. Fe wnaeth y buddsoddiadau mewn buddsoddiadau tymor sefydlog, cyfrifon galw a chyfrifon cyfredol gynhyrchu £1.55m o log. Ar ôl trosglwyddo llog i ddeiliaid bondiau a mân ymddiriedolaethau, cynhyrchodd y buddsoddiadau £866k o log ar gyfer y gronfa gyffredinol, o'i gymharu â chyllideb o £670k, £382k ar gyfer y CRT, o'i gymharu â chyllideb o £400k, a £212k ar gyfer ysgolion.

6. CYDYMFFURFIAETH Â'R STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS

- 6.1. Cafodd y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys Blyneddol ar gyfer 2024/25 ei chymeradwyo gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2024 ac mae'n nodi nifer o egwyddorion. Mae perfformiad y Cyngor yn erbyn yr egwyddorion hyn wedi'i nodi isod.

6.2. Strategaeth Fenthycia (Paragraff 8.1 ac 8.2 yn Natganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT) 2024/25)

Mae'r Cyngor wedi dilyn strategaeth o ddefnyddio arian parod wrth gefn i gyllido gwariant cyfalaf (benthycia mewnol) ac mae'n mynd allan i fenthycia dim ond pan fo balansau arian parod yn rhy isel, pan fo cynnydd cyflym mewn cyfraddau llog yn cael ei ragweld ar adeg y benthyciad, neu pan fo'r cyfraddau benthycia'n is na'r cyfraddau llog.

Yn ystod 2024/25, derbyniwyd benthyciad terfynol o £908k, cytunwyd yn flaenorol gan Salix. Ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau allanol eraill, a glynwyd wrth y polisi o ddefnyddio balansau arian parod i gyllido gwariant cyfalaf. Rhagwelir y bydd cyfraddau llog yn gostwng yn ystod 2025/26 a 2026/27 ac, felly, mae'n well aros cyhyd ag y bo modd cyn cymryd unrhyw fenthyciadau allanol.

6.3. Benthycia Cyn Bod Angen (Paragraff 8.3 yn DSRhT 2024/25)

Mae'r strategaeth yn glir na fydd y Cyngor yn benthycia cyn bod angen oni bai bod hynny'n sicrhau gwerth am arian, a bod y Cyngor yn gallu sicrhau diogelwch cyllid o'r fath. Ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau yn ystod 2024/25.

6.4. Aildrefnu Dyledion (Paragraff 8.4 yn DSRhT 2024/25)

Gellir ystyried aildrefnu dyledion dim ond os oes arian parod dros ben ar gael i hwyluso unrhyw ad-daliad ac os yw'r aildrefnu'n ail-gydbwyso'r portffolio ac os yw'r premiwm sy'n daladwy yn is na'r arbediad llog a wneir.

Ni chafodd unrhyw ddyledion eu haildrefnu yn ystod 2024/25 gan nad oes unrhyw frys mawr i ail-gydbwyso'r portffolio ac mae'r gost ad-dalu cynamserol yn dal i olygu nad yw'n werth aildrefnu.

6.5. Gwrthbartion Benthycia (Paragraff 8.5 yn DSRhT 2024/25)

Mae'r strategaeth yn nodi mai'r BBGC fydd yn parhau fel prif ffynhonnell fenthycia'r Cyngor, ond y gellir ystyried benthycia gan sefydliad eraill.

Yn ystod y flwyddyn, ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau allanol.

6.6. Blaenoriaethau Buddsoddi (Paragraff 10.2.1 yn DSRhT ys 2024/25)

Mae'r strategaeth yn nodi y bydd y Cyngor yn blaenoriaethu ei fuddsoddiadau yn ôl diogelwch, hylifedd, elw, h.y. mae'r Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch y buddsoddiad uwchlaw bob dim arall, yna'n sicrhau bod y buddsoddiad yn ei alluogi i gael gafael ar ryw faint o arian parod yn syth ac yna'n ystyried yr elw yn olaf.

Yn ystod y flwyddyn, roedd yr egwyddorion buddsoddi hyn yn weithredol ac roedd pob buddsoddiad yn unol â'r egwyddorion hyn.

6.7. Gwrthbartion Buddsoddi (Paragraff 10.2 - 10.4 yn DSRhT 2024/25)

Mae'r strategaeth yn nodi nifer o feini prawf yn gysylltiedig â gwrthbartion buddsoddi, yn cynnwys graddfa credyd pob sefydliad, yr uchafswm y gellir ei fuddsoddi gydag un sefydliad, hyd y buddsoddiadau a'r gwledydd cymeradwy.

Yn ystod y flwyddyn, glynydd wrth bob un o'r meini prawf yma.

7. DANGOSYDDION DARBODUS

- 7.1.** Yn ogystal â'r egwyddorion sydd wedi'u nodi uchod, mae'r Strategaeth hefyd yn cynnwys nifer o ddangosyddion darbodus a therfynau awdurdodedig. Pwrpas y dangosyddion hyn yw rheoli gwariant cyfalaf a faint sy'n rhaid ei fenthyci i gyllido'r gwariant hwn a mesur pa mor fforddiadwy yw'r costau refeniw'n gysylltiedig ag unrhyw fenthyciad. Mae Tabl 7 isod yn nodi'r perfformiad gwirioneddol ar gyfer 2024/25, o'i gymharu â'r amcangyfrif yn y strategaeth wreiddiol:-

Tabl 7
Dangosyddion Darbodus 2024/25

DANGOSYDDION PERFFORMIAD				
Grŵp Dangosyddion	Disgrifiad	Datganiad Strategaeth rheoli'r Trysorlys 2024/25	Sefyllfa Amcangyfrifedig ar ddiwedd Ch 4	
Fforddiadwyaeth	Cymhareb costau cyllido i ffrwd referniw net – Cronfa Gyffredinol	3.12%	2.62%	
	Cymhareb costau cyllido i ffrwd referniw net – Cyfrif Refeniw Tai (CRT)	10.38%	5.43%	
Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC)	Cronfa'r Cyngor a CRT	£171.991m	£152.285m	
TERFYNAU AWDURDODEDIG				
Doethineb	Rhaid i'r ddyled gros fod yn llai na'r GCC ynghyd ag unrhyw GCC ychwanegol yn y ddwy flynedd nesa	<£198.521m	£122.082m	
Dyled Allanol	Terfyn Awdurdodedig	<£198.521m	£122.082m	
	Ffin Weithredol	<£193.521m	£122.082m	
Aeddfedrwydd Dyled	Llai na 12 mis	<20% o gyfanswm y ddyled = £24.235m	£0.046m	0.04%
	12 mis ac o fewn 24 mis	<20% o gyfanswm y ddyled = £24.235m	£1.427m	1.18%
	24 mis ac o fewn 5 mlynedd	<50% o gyfanswm y ddyled = £60.587m	£5.813m	4.80%
	5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	<75% o gyfanswm y ddyled = £84.822m	£13.851	11.35%
	10 mlynedd ac uwch	100% = £121.175m	£122.082m	100.00%

7.2. Mae'r tabl uchod yn cadarnhau cydymffurfiaeth â'r holl ddangosyddion a therfynau awdurdodedig sydd wedi'u nodi yn y strategaeth.

8. 2025/26 A THU HWNT

8.1. Mae Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT) 2025/26 (a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 6 Mawrth 2025) yn nodi'r rhagolygon a'r strategaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod.

8.2. Yn seiliedig ar y sefyllfa bresennol, rhagwelir y bydd balansau arian parod y Cyngor yn gostwng ac y bydd yn rhaid iddo ddychwelyd y £10m y mae wedi'i fuddsoddi mewn buddsoddiadau tymor sefydlog i'w falansau arian parod hylif wrth i'r buddsoddiadau hynny aeddfedu yn ystod yr haf fel bod ganddo ddigon o falansau arian parod tan Hydref 2025. Ar yr adeg honno, bydd rhaid i ran o'r benthyciadau mewnol cyfredol gael eu hallanoli a bydd rhaid cymryd benthyciadau pellach tuag at ddiwedd blwyddyn ariannol 2025/26. Bydd rhaid benthg cyfanswm o £20m i gynnal balansau arian parod hylif digonol yn ystod 2025/26.


8.3. Ac eithrio benthyciadau blwydd-dal a benthyciadau Salix, nid oes unrhyw fenthyciadau tymor sefydlog yn ddyledus yn 2025/26. Mae 2 fenthyciad, gwerth cyfanswm o £1.381m, yn ddyledus yn 2026/27, ac mae 3 benthyciad pellach, gwerth cyfanswm o £2.165m, yn ddyledus yn 2027/28.

- 8.4.** Disgwylir i Gyfradd Sylfaenol Banc Lloegr barhau i ostwng yn ystod 2025/26, cyn sefydlogi i tua 3% ganol 2026.


9. CASGLIADAU

- 9.1.** Roedd perfformiad Rheoli'r Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn unol â'r strategaeth o fuddsoddiadau risg isel, enillion isel a dull benthyca a gynlluniwyd i leihau taliadau llog cymaint â phosib.
- 9.2.** Mae'r perfformiad yn erbyn y Dangosyddion Darbodus a osodwyd gan y Cyngor yn dangos bod gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys y Cyngor yn cael eu cynnal mewn ffordd reoledig sy'n sicrhau diogelwch ariannol y Cyngor ac nad ydynt yn rhoi'r Cyngor mewn unrhyw berygl ariannol sylweddol o ran benthyca anfforddiadwy neu ormodol.
- 9.3.** Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor, a'i berfformiad yn erbyn y strategaeth, yn ystyried y ffactorau economaidd allanol ac mae'n cael ei hadolygu'n gyson i sicrhau mai hon yw'r strategaeth fwyaf priodol wrth symud ymlaen.


Cyfanswm Benthyciadau yn Ddyledus ar 31 Mawrth 2025 fesul Blwyddyn Ad-Dalu
Total Loans Outstanding as at 31 March 2025 By Repayment Year




Balans Benthyciadau Dyledus ar 31 Mawrth 2025





Cyfanswm Benthyciadau yn Ddyledus ar 31 Mawrth 2025 fesul Math o Fenthyciad
Total Loan Outstanding as as 31 March 2025 By Loan Type





Gwerth Buddsoddiadau 2024/25 fesul Fath o Fuddsoddiad ar Diwedd Pob Chwarter 2024/25
Value of 2024/25 Investments By Investment Type at End of Each Quarter





CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH
Dyddiad:	17 GORFFENNAF 2025
Pwnc:	CYFRIFON TERFYNNOL DRAFFT 2024/25 A DEFNYDD O GRONFEYDD WRTH GEFN A BALANSAU
Deilydd Portffolio:	ROBIN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO - CYLLID
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151
Awdur yr Adroddiad:	MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151
Ffôn:	01248 762601
E-bost:	rmjfi@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Amherthnasol
A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:	
Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr drafft ar gyfer 2024/25 a'r Fantolen ddrafft fel ag yr oeddent ar 31 Mawrth 2025. Darperir gwybodaeth fwy manwl am falansau cyffredinol y Cyngor a chronfeydd wrth gefn clustnodedig ac mae'r adroddiad yn cynnwys manylion am sut y bwriedir defnyddio'r cronfeydd wrth gefn a'r balansau yn 2025/26 ac yn y blynyddoedd dilynol. Mae'r adroddiad yn nodi lefel y balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig sydd, ym marn broffesiynol Swyddog Adran 151 y Cyngor, y lefelau sydd eu hangen i gwrdd ag unrhyw risgiau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor, i gwrdd ag unrhyw ymrwymïadau cyllido presennol ac mae'n ystyried unrhyw gyfyngiadau penodol o ran defnyddio'r cyllid, e.e. cyfyngiadau a osodir gan amodau grant. Gall lefel y risg a wynebwr gan y Cyngor newid a chedwir golwg ar lefelau'r balansau cyffredinol a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig dros y misoedd nesaf. Mae'n bwysig nodi nad yw'r ffigyrau hyn wedi cael eu harchwilio ac y gallent newid yn sgil yr archwiliad. Ar ôl cwblhau'r archwiliad, cyflwynir adroddiad ar y Datganiad Cyfrifon terfynol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor llawn. Argymhellion:- 1. Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi'r prif ddatganiadau ariannol drafft (heb eu harchwilio) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25. Cyhoeddir y Datganiad Cyfrifon Drafft llawn ar gyfer 2024/25 ar y ddolen a ganlyn:- <u>Datganiad o'r cyfrifon</u> 2. Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi sefyllfa balansau cyffredinol y Cyngor, sef £15.705m. 3. Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi balans y cronfeydd wrth gefn clustnodedig, sef £18.295m, a'i fod yn cymeradwyo creu £1.958m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig newydd. 4. Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo, yn ffurfiol, trosglwyddo £0.94m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig yn ôl i Falansau Cyffredinol y Cyngor. 5. Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi balans cronfeydd wrth gefn ysgolion, sef £5.074m. 6. Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi balans cronfa wrth gefn y CRT, sef £7.978m.	
B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?	
Nid oes unrhyw opsiynau eraill ar gael i'r Pwyllgor Gwaith.	

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?		
Mae defnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, yn unol a phenderfyniad y Cyngor ynghylch cyllideb referniw a chyfalaf y Cyngor ar 29 Chwefror 2024.		
CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?		
Ydi		
D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
Ydi		
Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Cynlluniwyd y defnydd arfaethedig o gronfeydd wrth gefn a balansau i fynd i'r afael â rhai o'r risgiau a'r materion sy'n wynebu'r Cyngor ar hyn o bryd. Bydd hyn yn caniatáu i'r Cyngor ymgymryd â phrosiectau fydd yn ei gynorthwyo i gwrdd ag anghenion hirdymor yr Ynys a'i phreswylwyr.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?	Ydi – bydd nodi cyllid i liniaru risgiau yn y dyfodol yn sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n well a gallai leihau costau yn y dyfodol.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.	Amherthnasol
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y penderfyniad? Esboniwch sut.	Amherthnasol
5	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a amddiffynnir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Nid yw'r penderfyniad y gofynnir amdano yn yr adroddiad hwn yn cael effaith uniongyrchol ar y grwpiau hynny sy'n cael eu gwarchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Byddai unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r cyllid yn ystyried yr effaith ar y grwpiau hyn cyn gwneud penderfyniad terfynol i fwrw ymlaen ag unrhyw brosiect.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rheini sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Nid yw'r penderfyniad y gofynnir amdano yn yr adroddiad hwn yn cael effaith uniongyrchol ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Byddai unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r cyllid yn ystyried yr effaith ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol cyn gwneud penderfyniad terfynol i fwrw ymlaen ag unrhyw brosiect.
7	Nodwch unrhyw effeithiau y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Dim effaith ar yr iaith Gymraeg.

E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	Mae'r Prif Weithredwr a'r TA wedi ystyried yr adroddiad cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor. Ymgorfforwyd sylwadau aelodau'r TA yn yr adroddiad.
2	Cyllid / Swyddog Adran 151 (gorfodol)	Y Swyddog Adran 151 a staff y Tîm Cyllid oedd yn gyfrifol am ddrafftio'r cyfrifon a'r adroddiad hwn.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r TA ac mae unrhyw sylwadau wedi cael eu hystyried, ynghyd â holl sylwadau aelodau'r TA.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Nid yw'r materion yn yr adroddiad hwn yn effeithio ar unrhyw faterion Adnoddau Dynol.
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Amherthnasol
7	Sgriwtini	Trafodwyd yr alldro ariannol drafft a'r balansau mewn cyfarfod o'r Panel Sgriwtini Cyllid a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2025. Ystyriwyd y datganiad cyfrifon drafft gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 16 Gorffennaf 2025.
8	Aelodau Lleol	Amherthnasol
9	Unrhyw gyrff allanol / eraill	Amherthnasol
F - Atodiadau		
Atodiad 1 – Adroddiad ar y prif ddatganiadau ariannol, balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig Atodiad 2 – Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Drafft 2024/25 Atodiad 3 – Mantolen Ddrafft fel ar 31 Mawrth 2025 Atodiad 4 – Datganiad ar y Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn 2024/25 Atodiad 5 – Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig fel ar 31 Mawrth 2025		
FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		
Dim		

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif ddatganiadau ariannol drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 ac mae'n cyflwyno crynodeb o falansau cyffredinol, cronfeydd wrth gefn clustnodedig, balansau ysgolion a chronfa CRT y Cyngor.
- 1.2. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi a yw Swyddog Adran 151 y Cyngor o'r farn bod y cronfeydd yn ddigonol a ph'un a ydynt yn darparu digon o wytnwch ariannol i'r Cyngor a digon o arian wrth gefn i fynd i'r afael ag unrhyw risgiau ariannol fydd y Cyngor yn eu hwynebu yn y dyfodol.

2. CEFNDIR

- 2.1. Mae Rheoliad 10 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018, yn nodi bod rhaid i'r swyddog ariannol cyfrifol lofnodi a dyddio'r datganiad cyfrifon drafft a thystio ei fod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor erbyn dim hwyrach na 31 Mai yn union ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'n rhaid i'r Cyngor, wedyn, gymeradwyo a chyhoeddi ei ddatganiadau ariannol wedi'u harchwilio erbyn 31 Gorffennaf yn union ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.
- 2.2. Oherwydd nifer o resymau, gan gynnwys oedi wrth gwblhau archwiliadau ledled Cymru yn ystod y blynyddoedd yn dilyn y pandemig a phroblemau cyfrifo technegol oedd yn gofyn am ganllawiau a mewnbwn archwilio ychwanegol, mae Llywodraeth Cymru (LIC) ac Archwilio Cymru wedi cydnabod nad oes modd cyflawni'r amserlen statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Yr amserlen a awgrymir yw bod y datganiad cyfrifon drafft yn cael ei baratoi erbyn 30 Mehefin 2025 a bod y cyfrifon terfynol wedi'u harchwilio'n cael eu cyhoeddi erbyn 31 Hydref 2025. Mae diwygio'r terfynau amser statudol ar gyfer blynyddoedd i ddod yn cael ei ystyried hefyd. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi'r hysbysiad statudol i hysbysu pawb sydd â diddordeb na fydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r terfynau amser statudol a nodir ym mharagraff 2.1 uchod.

3. DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR DRAFFT 2024/25

- 3.1. Caiff y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) ei gyflwyno yn Atodiad 2.
- 3.2. Mae'r datganiad yn crynhoi'r gost o ddarparu gwasanaethau yn 2024/25, yn unol â'r gofynion cyfrifo statudol, ac mae'n cynnwys Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) mewn un datganiad ariannol. Mae'r CIES yn cynnwys costau cyfrifo statudol, megis dibrisiant ac addasiadau ar gyfer pensiwn, na chodir amdanynt yn erbyn y Dreth Gyngor ac, o'r herwydd, maent yn cael eu gwyrddroi cyn penderfynu ar y sefyllfa derfynol mewn perthynas â balansau cyffredinol, cronfeydd wrth gefn clustnodedig, balans cyfrif y CRT a balansau ysgolion. O ganlyniad, nid oes modd, tynnu cymhariaeth uniongyrchol rhwng y CIES a'r adroddiadau alldro a gyflwynir i'r Pwyllgor Gwaith fel rhan o agenda y cyfarfod hwn.
- 3.3. Mae'r CIES yn dangos fod cost net y gwasanaethau yn £173.726m, ac roedd gwarged o £38.568m ar ddarparu gwasanaethau. Yna, gwneir addasiadau ar gyfer ailbrisio asedau ac ail-fesur y rhwymedigaethau pensiwn, a rhydd hynny warged net terfynol o £45.117m ar gyfer y flwyddyn. Yna, gwneir addasiadau, fel y dangosir yn Nhabl 1 isod, i benderfynu ar y symudiad i gronfeydd wrth gefn a balansau. Manylir ar yr addasiadau hyn yn nodyn 6 yn y Datganiad Cyfrifon drafft.

Tabl 1
Cysoni'r CIES gyda'r Cyfraniad (i) neu o Gronfeydd Wrth Gefn a Balansau ar gyfer 2024/25

	£'000	£'000
Cyfanswm Cost (Gwarged) yn unol â'r CIES		(45,117)
Gwyrdroi'r cofnodion cyfrifo mewn perthynas ag Ailbrisio Asedau ac Ail-fesur y Gronfa Bensiwn	6,549	
Addasiad rhwng y Sail Gyfrifo a'r Sail Gyllido o dan y Rheoliadau	34,827	
		41,376
Cyfraniad (i) / o Gronfeydd Wrth Gefn a Balansau Defnyddiadwy		(3,741)

3.4. Mae Tabl 2, isod, yn dangos y symudiadau yng nghronfeydd wrth gefn a balansau'r Cyngor:-

Tabl 2
Crynodeb o Symudiadau yng Nghronfeydd Wrth Gefn a Balansau'r Cyngor fel ag yr oeddent ar 31 Mawrth 2025

	Cronfa wrth gefn Gyffredinol Cronfa'r Cyngor	Cronfeydd wrth gefn Clustnodedig Cronfa'r Cyngor	Cronfeydd wrth gefn Ysgolion	Cronfa wrth gefn Derbyniadau Cyfalaf	Cronfa wrth gefn Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwysu	Cronfeydd wrth gefn BUEGC	Cronfa wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai (CRT)	Cronfa wrth gefn Derbyniadau Cyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai (CRT)	Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn Defnyddiadwy
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000		£'000
Balans Agoriadol ar 1 Ebrill 2024	(15,605)	(16,517)	(5,577)	(2,390)	(464)	(587)	(8,189)	(509)	(49,838)
Gor / (Tan) Variant Net 2024/25	(3,873)	-	-	-	-	-	211	-	(3,662)
Balans ar ôl Gor / (Tan) Variant	(19,478)	(16,517)	(5,577)	(2,390)	(464)	(587)	(7,978)	(509)	(53,500)
Trosglwyddiadau Net o / (i) Cronfeydd wrth gefn ar gyfer Cyllid a Gymeradwywyd	1,313	(1,778)	503	(226)	(74)	(326)	-	509	(79)
Balans Cau ar 31 Mawrth 2025	(18,165)	(18,295)	(5,074)	(2,616)	(538)	(913)	(7,978)	-	(53,579)

Mae Cyfrifon y Cyngor hefyd yn cynnwys £913k mewn perthynas a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC). Y ffigwr yma yw cyfran y Cyngor o'r cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, a delir gan Gyngor Gwynedd fel yr awdurdod arwain ar gyfer Aelodau'r Bwrdd.

4. MANTOLEN DDRAFFT FEL AG YR OEDD AR 31 MAWRTH 2025

4.1. Mae'r fantolen ddrafft fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2025 i'w gweld yn Atodiad 3.

Bu cynnydd o £45.117m yng ngwerth net asedau'r Cyngor, o £441.573m y llynedd, i £486.690m ar 31 Mawrth 2025. Bu cynnydd o £47.475m yng ngwerth asedau tymor hir y Cyngor, o ganlyniad i wariant cyfalaf ar eiddo, offer a chyfarpar y Cyngor ac ailbrisio asedau cyfredol. Mae gwerth asedau cyfredol y Cyngor wedi disgyn ychydig i £83.655m, cwmpo o £0.123m o'r flwyddyn flaenorol.

4.2. Roedd cynnydd o £5.809m yn y rhwymedigaethau cyfredol, i £60.254m sydd o ganlyniad i £42.349m credydwy'r tymor byr a grantiau tymor byr a dderbyniwyd o flaen llaw o £14.453m. Mae rhwymedigaethau tymor hir wedi lleihau, o £139.735m i £136.161m.

- 4.3. Er bod prisiad actiwariaid yn asesu gwerth y Gronfa Bensiwn fel gwarged o £139.086m, mae rheolau cyfrifo (IFRIC 14) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ostwng gwerth yr ased pensiwn oherwydd ni all y Cyngor gael mynediad i werth yr ased. O ganlyniad, mae diffyg o £9.259m yng ngwerth cario cronfa arian wrth gefn pensiynau, sy'n £1.263m yn is na 2023/24.

5. BALANS Y GRONFA GYFFREDINOL

- 5.1. Balans y Gronfa Gyffredinol (cyn ei harchwilio) ar 31 Mawrth 2025 yw £15.605m, ac mae hyn yn cyfateb i 8.52% o gyllideb gwariant refeniw net 2024/25, ond dylid nodi y gallai'r ffigwr hwn newid ar ôl yr archwiliad. Defnyddiodd y Cyngor £4.425m o'r gronfa wrth gefn yma fel cyllid ar gyfer cyllideb 2024/25, gan ostwng y balans net sydd ar gael i £11.180m, sef 6.07% o gyllideb refeniw net 2024/25. Dangosir y symudiad yn Nhabl 3, isod:-

Tabl 3
Symudiad yn y Balansau Cyffredinol yn ystod 2024/25

	£'m	£'m
Balans Agoriadol ar 1 Ebrill 2024		15.605
Cyllid ar gyfer Cyllideb Refeniw 2024/25		(4.425)
Balans ar gael ar 1 Ebrill 2024		11.180
Trosglwyddiadau o Gronfeydd wrth gefn Clustnodedig	0.094	
Trosglwyddiadau Eraill i Mewn / (Allan)	3.617	
Gwariant a Gyllidir o'r Balansau Cyffredinol	-0.600	
Trosglwyddiadau Net i Mewn / (Allan) yn ystod y Flwyddyn		3.111
Gwarged ar Gyllideb Refeniw 2024/25		3.873
Balans ar 31 Mawrth 2025		18.164
Cyllid ar gyfer Cyllideb Refeniw 2025/26		(2.459)
Balans ar gael ar 1 Ebrill 2025		15.705

- 5.2. Roedd y Cyngor wedi cymeradwyo argymhelliad y Swyddog Adran 151 y dylai'r Cyngor sicrhau fod balans y gronfa hon yn cyfateb i o leiaf 5% o'r gyllideb gwariant refeniw net ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Ar sail yr argymhelliad hwn, mae angen balans o £9.75m o leiaf, felly, mae gan y Cyngor £5.95m o falansau uwchlaw'r isafswm hwn.
- 5.3. Ar sail y wybodaeth bresennol, ymddengys bod sefyllfa cyllido 2026/27 yn ansicr iawn, gyda chostau, oherwydd chwyddiant a phwysau o ran y galw, yn uwch na'r cynnydd mewn cyllid. Mae'r gwarged yma yn y balansau cyffredinol, uwch ben y lefel isaf sy'n cael ei hargymell, yn golygu y gallai'r Cyngor ddefnyddio ei falansau cyffredinol yn 2026/27 i ychwanegu at gyllid o grantiau Llywodraeth Cymru a'r Dreth Gyngor.

6. CRONFEYDD WRTH GEFN CLUSTNODEDIG

- 6.1. Mae gan y Cyngor Gronfeydd Wrth Gefn clustnodedig er mwyn lliniaru risgiau posib yn y dyfodol, cwrdd â chynnydd yn y galw am rai gwasanaethau, cyllido prosiectau cyfalaf yn y dyfodol, cyllido gwelliannau mewn prosesau busnes a darparu gwasanaethau, nad ydynt yn cael eu cyllido yn y gyllideb refeniw flynyddol, ac i ddal grantiau a dderbyniwyd ond sydd heb eu gwario, ynghyd â chyfraniadau eraill. Mae cadw cronfeydd wrth gefn clustnodedig yn rhan hanfodol o strategaeth ariannol y Cyngor er mwyn sicrhau bod ganddo ddigon o wydwnch ariannol i gwrdd ag unrhyw risgiau a heriau ariannol yn y dyfodol, ac mae'n caniatáu iddo fuddsoddi'n ychwanegol mewn asedau a gwasanaethau. Mae'r cronfeydd wrth gefn newydd a grëwyd yn ystod 2024/25 i'w gweld yn Nhabl 4, a gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo, yn ffurfiol, creu'r cronfeydd wrth gefn newydd hyn, gwerth £1.958m.

Tabl 4
Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig Newydd

Gwasanaeth	Enw'r Gronfa Wrth Gefn	Cyfanswm y Gronfa wrth Gefn £	Rheswm dros Greu'r Gronfa Wrth Gefn	Pwrpas y Gronfa wrth Gefn
Gwarchod y Cyhoedd	Gweithwyr Asiantaeth - Safonau Bwyd	47,000	Gwariant a gynlluniwyd yn 2024/25 wedi'i ohirio tan 2025/26	I'w ddefnyddio i gyllido gweithwyr asiantaeth er mwyn mynd i'r afael â'r ôl-groniad gwaith o fewn y gwasanaeth.
Gwarchod y Cyhoedd	Lles Anifeiliaid	20,894	Tanwariant cronfa benodol	Cyllido costau yn gysylltiedig ag Achos Lles Anifeiliaid yn y dyfodol.
